

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A458  
(Llanfair Caereinion, Powys)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2020

The A458 Trunk Road (Llanfair  
Caereinion, Powys) (Temporary  
Prohibition of Vehicles) Order  
2020

*Gwnaed* 8 Hydref 2020  
*Yn dod i rym* 13 Hydref 2020

*Made* 8 October 2020  
*Coming into force* 13 October 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A458 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Llanfair Caereinion, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 13 Hydref 2020.

1. The title of this Order is the A458 Trunk Road (Llanfair Caereinion, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 13 October 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 13 Hydref 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A458 Shrewsbury to Dolgellau Trunk Road;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt terfyn y terfyn cyflymder o 30 mya ar ochr dde-orllewinol Llanfair Caereinion, Powys hyd at bwynt terfyn y terfyn cyflymder o 30 mya ar ochr ogledd-ddwyreiniol y dref.

### **Cymhwyso**

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

8 Hydref 2020



Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:00 hours on 13 October 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road that extends from the 30 mph speed limit terminal point at the south-western side of Llanfair Caereinion, Powys to the 30 mph speed limit terminal point at the north-eastern side of the town.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

8 October 2020



Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458  
(LLANFAIR CAEREINION, POWYS)  
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, yn Llanfair Caereinion, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o bwynt terfyn y terfyn cyflymder o 30 mya ar ochr dde-orllewinol Llanfair Caereinion hyd at bwynt terfyn y terfyn cyflymder o 30 mya ar ochr ogledd-ddwyreiniol y dref.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin fydd mynd ar yr A458 tua'r dwyrain i Gylchfan Raven, y Trallwng, ar yr A490 tua'r gogledd i Gyffordd Ystum Colwyn, ar yr A495 tua'r gorllewin i Bont Neuadd ac ar yr A458 tua'r dwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn dod i rym ar 13 Hydref 2020 ac yn weithredol dros nos (rhwng 19:00 a 06:00 o'r gloch) hyd 23 Hydref 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A458 TRUNK ROAD (LLANFAIR  
CAEREINION, POWYS) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road at Llanfair Caereinion, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A458 trunk road that extends from the 30 mph speed limit terminal point at the south-western side of Llanfair Caereinion to the 30 mph speed limit terminal point at the north-eastern side of the town.

The alternative route for westbound traffic will be via the eastbound A458 to Raven Roundabout, Welshpool, northbound A490 to Ystum Colwyn Junction, south-westbound A495 to Neuadd Bridge and eastbound A458: vice versa for eastbound traffic.

The temporary prohibition is expected to come into force on 13 October 2020 and to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) until 23 October 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government